Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo ,a gynhaliwyd ar Nos Fercher Rhagfyr 1af, yn Neuadd y Sir ,Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Maer Mrs Ros Bellamy, Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cadeirydd Cyng. Ieuan Gwyn, Cyng. Pam Steane Price, , Cyng. Hugh Towns, Cyng Roy Davies, Cyng. Fran Murphy Cyng. Charlotte Leadbeater, Cyng. Paul Faulkner, Cyng. Richard Wallace, June Stait, clerc.

.

6290/Rhag/ 04 Cynghorydd Newydd
Croesawodd y Maer Richard Wallace, Cynghorydd newydd.

6291/Rhag/04 Cyfrifon i'w talu :

Caniatawyd i dalu'r cyfrifon isod:

1. Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol i ganiatáu cadarnhad arwyddo siec o £100 ,i'w newid i arian parod, a'i ddefnyddio fel arian rhydd am newid i'r tâl mynediad , Noson Tân gwyllt .Fe fanciwyd y swm gyda'r tâl mynediad a gasglwyd, gweler y manylion isod dan dderbynebau .

2. Caniatawyd i dalu anfoneb Pay Connect ,rhif 276, dyddiedig 9fed o Dachwedd am y swm o £20.09 am gyfrifon cyflogau fis Hydref .

3. Derbyniwyd y treuliau canlynol. Fe'u gwiriwyd a chaniatawyd eu talu :
   a) Ros Bellamy: £17.36
   b) Pam Steane Price: 94.62

4. Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol wrth gadarnhau arwyddo tair siec i'r gystadleuaeth 'Y ffenestr siop orau i'w haddurno' yn Llandeilo:
   a) Gwobr 1af: Rigout £50
   b) Ail wobr: Variations £30
   c) Trydydd Gwobr : Igam Ogam £20

5. Caniatawyd i dalu Dewis am anfoneb BD153, dyddiedig 24 ain o Dachwedd 2004 am y swm o £72.75 am gyfieithu cofnodion 7fed Gorffennaf, 20fed o Orffennaf ,a'r 6ed o Hydref ..

6292/Rhag/04 Tâl y Clerc

Caniatawyd i dalu anfoneb y Clerc LTC3/04 am 65 awr a threuliau o £519.46 mewn cyfanswm .

6293/Rhag/04
A) Derbynebau

1. Derbyniwyd a banciwyd Tâl mynediad arddangosfa Tân Gwyllt o £1711.90, yn cynnwys £100 y gronfa barod.

2. Derbynebau oddi wrth farchnatwyr am hysbysebion yn rhaglen y Noson Tân Gwyllt yn cyrraedd yn ddyddiol. Banciwyd hyd yma £100.

3. Nodwyd bod £5863.40 wedi'i dderbyn gan Gyllid y Wlad fel TAW adferedig am 03/04.

6293/Rhag/04
B) Adran 137 Taliadau

Derbyniwyd nifer o geisiadau gan fudiadau lleol a chenedlaethol ac fe benderfynwyd caniatáu'r canlynol:

1. Dyfed Victim Support /Cefnogi dioddefwyr £100
2. Cangen y Bad Achub Llandeilo £100

3. Gwasanaeth Cynghori Sir Gâr £100
4. Cangen Canolbarth Cymru o'r Groes Goch £50
5. Adran Yr Urdd Teilo Sant £200
6. Dechrau Cartref/ Home Start Dinefwr £100
7. Sioe Amaethyddol Cymru .Sir a nodwyd £50
8. Gefeillio Tref Llandeilo £200
9. Ambiwlans Sant Ioan , Llandeilo £200
10. Y Lloffwr £100
11. Canolfan Cynghori Rhydaman £100

6294/Rhag/04 Mantolen Banc

Cofnodwyd yr adroddiad canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor:

Dyddiad	Manylion	Ffigurau'r Mis	Rhif Cronnus	Sylw
30.11.04	Incwm Tach 04	7575.30	36,617.81	
	Llai gwariant -cynnwys TAW	7215.64	42396.14	TAW £1285.99
	GWEDDILL	359.66	-5778.33	
	Incwm sy'n aros?			
	Treuliau heb eu talu ?			
	Gweddill yn y Banc ar 30 Tach 04			
	Cyfrif Cyfredol	11,214.03		Cyn gweld mantolen banc Tachwedd
	Cyfrif Gosod	23,263.87		
	Cyfrif y Maer	2,012.78		
	Cyfanswm Gweddill	36,490.68		

6295/Rhag/04 Apwyntiad archwilydd mewnol

Trafodwyd apwyntio archwilydd mewnol, ac fe gytunwyd i anfon llythyr at Lyn Llewellyn a Wallace Davies yn gofyn am eu costau.

6296/Rhag/04 Ffôn

Bydd y rhif ffôn 824167 yn gorffen. Defnyddir rhif 01558 823850 ar ohebiaeth Cyngor y Dref yn y cyfamser wedi'I fenthyg gan y Swyddfeydd Addysg Gymunedol , nes y bydd swyddfa barhaol ar gael. Byddai cyhoeddiad i gwsmeriaid ar y ffôn yn dweud "Rhif wedi darfod" ac yn eu cynghori i ddeialu rhif newydd. Byddai hwn yn costio £30 y chwarter, gyda chytundeb o un chwarter yn unig.

6297/Rhag/04 Cae William Gateway

Cafwyd amcangyfrif gan Mr Hywel Davies oddi wrth yr adeiladwr T L Robinson, o £1350 i dynnu lawr y bwa cerrig ar draws hen fynediad i diroedd Cae William ,a'i lenwi â cherrig. Cytunodd y cynghorwyr yn unfrydol i gyfrannu £200 tuag at gost y gwaith yma.

6298/Rhag/04 Cyllid

Trafododd y cynghorwyr y gyllideb arfaethedig a'r anghenion canlynol :

a) Angen am Swyddog Technegol – eitem i agenda y cyfarfod llawn nesaf;
b) Defnydd dros dro o'r Swyddfeydd Addysg Gymunedol;
c) Ffioedd proffesiynol am y gwaith arfaethedig ar Neuadd y Sir.

Cytunwyd ar gyllideb , fel y gwelir isod, gan y Pwyllgor Cyllid , ac fe fydd argymhelliad i'w osod gerbron Cyfarfod Llawn y Cyngor i fabwysiadu hyn.

GWARIANT Categori	**Cyllid 04-05**	**Gwariant erbyn diwedd blwyddyn Gwirioneddol/rhagf ynegwyd**	**Cyllid Tebygol 05 -06**
Cyflogau a Gweinyddu			
- Cyflogau	8500	7332	7600
- Treuliau Swyddfa	1000	1463	1000
- Cost Cyfieithu	500	1120	1200
Neuadd y Sir	5000	3061	5000
Goleuadau Nadolig	3000	4495	5000
Treuliau'r Maer	3213	3500	3250
Adran 137	3500	2350	2000
Taliadau benthyciadau	7500	7500	11100
Digwyddiadau	6000		
- Tân Gwyllt		2700	2500
- Gwyliau		6000	4000
Golau stryd	600		600
Yswiriant	3000	2748	3000
Ariannu cyfatebol/ Prosiectau			
- Llwybr treftadaeth			9000
- Gerddi	3000	3340	2000
- Neuadd Dinesig	1000	1300	1500
- CCTV	500		500
Amrywiol			
- Llwybrau	250	287	500
- Llandeilo mewn blodau	500		500
- Eglwys	500	1815	1000
- Gwefan	300	475	750
- Archwiliad	600	450	500
- Treuliau eraill	1000	2805	1000
TAW	3000	1500	
CYFANSWM	**52463**	**54241**	**63500**

INCWM Categori	**Cyllid 04-05**	**Incwm gwirionedd/rhag fynegwyd**	**Cyllid Tebygol 2005-06**
Rhent Neuadd y Sir	11167	11167	12634
TAW	7556		5650
Cyfanswm	**18723**		**18284**
Precept	**33690.05**	33690.05	**45216**
		44857.05	

6299/Rhag/04 Precept

Arweiniodd caniatáu'r gyllideb at drafodaeth ynglŷn â'r precept ac fe gytunwyd ar fynd a'r argymhelliad at y Cyngor Llawn a gofyn am ganiatáu precept of £45216 .

Roedd hyn yn fras 33% o godiad ac fe fedrir ei gyfiawnhau.

a) Mae'r precept wedi aros yr un peth ers y tair blynedd diwethaf gan fod costau ychwanegol wedi'u llyncu i mewn i gronfeydd eraill parod;
b) Bydd cynllun Treftadaeth Tref angen cyfraniadau ariannol tebyg /match funding allan o gronfa Cyngor y Dref .
c) Prynu'r rhandir i'w ddatblygu fel gardd, arian ychwanegol am flychau goleuadau'r Nadolig y flwyddyn nesaf a.y.b – byddai'r rhain i gyd angen arian ychwanegol.
d) Ymrwymiad i gynllun y Neuadd Ddinesig .

6300/Rhag/04 Gohebiaeth

Dim.